Profiadau i'w Cofio

Yn ystod y misoedd diwethaf, cefais ddau brofiad bythgofiadwy, un llawn siom a digalondid, a'r llall yn llawn rhyfeddod a diddordeb. I ddechrau, ymddangosais ar raglen deledu fwyaf poblogaidd ein cyfnod - *X Factor*. Bûm yn gwylio'r rhaglen ers pan oeddwn i'n ifanc iawn a meddyliais fod gennyf yr hyn oedd ei angen i lwyddo arni! Yn troi'n 16 oed, 'roedd hawl gennyf roi cynnig ar y gystadleuaeth. Felly, es am glyweliad yn Stadiwm Pêl Droed Caerdydd ym Mis Ebrill. Doeddwn erioed wedi gweld cymaint o bobl wedi ymgasglu mewn un lle o'r blaen! Pawb yn hollol wahanol, ond yn debyg mewn un peth - pob un am ennill yr *X Factor*.

Ar ôl aros mewn llinell am 4 awr 'roedd yn bryd mynd am glyweliad, ond doeddwn i ddim wedi disgwyl yr hyn a welais. Tu mewn i'r stadiwm roedd tua 10 blwch wedi eu gwasgaru o gwmpas y cae chwarae. Cawsom ein harwain i eistedd ar seddi'r stadiwm - 5,000 ohonom! 'Roeddwn yn teimlo mor nerfus ac ansicr. 'Roeddwn hefyd yn ymwybodol o ba mor gystadleuol fyddai'r broses, ac ar ôl gweld y mwyafrif o'r cystadleuwyr yn cael eu gwrthod, dechreuais amau fy mod yn ddigon da. Ar ôl tua awr o wylio cantorion yn cael eu siomi neu eu gwobrwyo gyda thocyn i'r rownd nesaf, dyma fy nhro i. Cerddais i lawr i un o'r blychau ac es i mewn. Un o gynhyrchwyr y rhaglen oedd yno ac ar ôl iddo ofyn rhai cwestiynau, dechreuais ganu un o ganeuon adnabyddus Amy Winehouse. Pan orffennais, edrychais ar y cynhyrchydd yn obeithiol, ac er syndod 'roedd yn gwenu arnaf. Dywedodd fod gen i lais gwych a symudais ymlaen i'r rownd nesaf.

Felly ar ôl deffro am bedwar yn y bore er mwyn cael fy ffilmio gartref am bump, cyrhaeddais y CIA, sef lleoliad y clyweliadau byw o flaen y beirniaid. Yr eiliad y cyrhaeddais gyda Mam, Tomos a thua 20 o fy ffrindiau, es i gael fy ffilmio gyda'r cyflwynydd Dermot O'Leary a chael cyfweliadau eraill. Ar ôl ciwio am oriau mewn coridor twym, am bedwar y prynhawn cefais fy nhaflu ar y llwyfan. 'Roedd y neuadd yn orlawn, 6,000 o bobl mae'n debyg yn y gynulleidfa, golau llachar yn fy wyneb a phedwar o'r bobl fwyaf adnabyddus a welais erioed yn fy wynebu.

Digwyddodd popeth mor gyflym ac nid wyf yn cofio llawer, Teimlais mor nerfus ac fel bod popeth yn drech na fi. Es ati'n syth i ganu '*Sunny Afternoon*'. 'Roedd y gân gyntaf yn ddigyfeiliant, a '*No Good*' gan Amy Winehouse oedd yr ail. 'Roedd y gynulleidfa wedi mwynhau'n fawr ac yn hoff iawn o'r perfformiad ond 'roedd y beirniaid (llun) wedi eu rhannu. Credai dau o'r beirniaid enwog, Gary a Tulisa, fy mod yn haeddu mynd trwyddo ac 'roeddent yn cytuno fod llais da gennyf, ond er bod y ddau arall yn gwerthfawrogi fy llais, doeddent ddim yn meddwl fy mod yn barod am y gystadleuaeth. Felly, ces ddau 'Ie' a dau 'Na' a chefais fy ngwrthod.

Ar y pryd, 'roeddwn yn teimlo'n ddigalon ac yn ddig tuag at y beirniaid a'r rhaglen, ond wrth edrych yn ôl, dysgais lawer o'r profiad a theimlaf yn bositif am fy nyfodol fel cantores, efallai, gan fy mod yn credu ei fod yn bwysig cofio'r geiriau positif a gafodd eu dweud am fy llais, nid y negyddol.

Er bod yr *X Factor* yn newid bywydau, ac yn rhoi siawns i dalent Prydain, nid wyf yn debygol o drïo eto gan fy mod yn ymwybodol o bopeth sy'n digwydd tu ôl i'r llenni erbyn hyn.



Yn hollol wrthgyferbyniol i'r profiad swreal uchod, bum wedyn ar drip i Fynachdy yn Yr Alban gydag Adran Addysg Grefyddol Ysgol Glantaf. Nid wyf erioed wedi cael profiad tebyg! Mynachdy ar gyfer Bwdyddion Tibetaidd ydyw ym mynyddoedd prydferth Yr Alban. Ei henw yw ac mae tua thri deg o drigolion parhaol yn byw yno yn dilyn gofynion llym Bwdhyddion Tibetaidd. Am y diwrnod a'r noson honno bu'n rhaid inni geisio dilyn eu rheolau hefyd! 'Roedd hyn yn cynnwys peidio bwyta cig a myfyrio am saith y nos a chwech y bore.

Cawsom gyfle i ofyn i un o leianod Samye Ling, Anijimpa (neu Laura), gwestiynau am ei chredoau fel Bwdhydd Tibetaidd a'i rhesymau dros ddilyn y grefydd Bwdhaeth. Dyna un o'r llefydd mwyaf heddychlon a thawel bum ynddo erioed, ond roedd yn llawer rhy dawel imi!

'Roedd y myfyrio yn anodd iawn, yn enwedig y sesiwn a oedd yn para am awr gyfan! Ond gallaf ddeall pam mae myfyrio'n bwysig i Fwdhyddion gan eu bod nhw'n benderfynol o ffeindio heddwch mewnol, a chael gweledigaeth. Mae rhai mor benderfynol fel eu bod yn cau eu hunain oddi wrth weddill y byd ac yn aros mewn stafell maint bath am weddill eu bywyd heb ddim adloniant.

Er mwyn cael profiad gwahanol o'r grefydd aethom i Fanceinion i Ganolfan Fwdhaeth yno. 'Roedd yn wrthgyferbyniad llwyr i Smye Ling ac 'roedd eu rheolau llawer mwy llac a'u ffyrdd o fyw yn llai llym na Bwdyddion Tibetaidd Yr Alban! Er hynny, gallaf ddweud yn hyderus nad wyf am droi'n Fwdist Tibetaidd yn y dyfodol agos, ac rwy'n sicr mai Minny Street yw'r lle i fi!!

Megan Lloyd Jones